

Ceisiadau cynllunio mawr iawn/cymhleth

Mae'r gofyniad i ymgynghori cyn ymgeisio'n berthnasol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiad "mawr" (llawn neu amlinellol) a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Rhaid cyflwyno adroddiad am yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio gyda phob cais cynllunio a wneir ar 1 Awst 2015 neu wedi hynny, ac sy'n gorfod cydymffurfio â darpariaethau statudol ymgynghori â'r gymuned cyn ymgeisio.

Bydd y cais cynllunio'n cael ei ystyried yn annilys os na chyflwynir gydag ef adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio a hwnnw'n cynnwys y canlynol:

- a) copi o'r hysbysiad safle;
- b) datganiad bod yr hysbysiad safle wedi'i arddangos yn unol â'r gofynion statudol, h.y. mewn un man o leiaf ar neu gerllaw'r safle datblygu am 28 diwrnod fan leiaf;
- c) copi o'r hysbysiad a roddwyd i berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol;
- d) copïau o bob hysbysiad a roddwyd i gynghorwyr, cynghorau tref a chymuned ac ymgynghoreion arbenigol;
- e) crynodeb o bob mater a godwyd wrth ymateb i'r cyhoeddusrwydd statudol (h.y. yr hysbysiad safle a llythyrau at berchnogion, meddianwyr) - rhaid i'r datblygwr gadarnhau a oes sylw wedi'i roi i'r materion a godwyd, ac os oes, sut mae'r rheini wedi cael sylw;
- f) copïau o'r holl ymatebion a gafwyd gan ymgynghoreion arbenigol gydag esboniad am sut mae'r datblygwr wedi ymateb i bob sylw.

Ni ddylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio dilysu i atal dechrau'r cyfnod penderfynu os bydd ceisydd wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni'r gofynion o ran gwybodaeth.

O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd y wybodaeth ategol yn annigonol neu fod ei hansawdd yn achos pryder. Nid yw'r rhain yn rheswm dros hysbysu bod ceisiadau'n annilys, ond anogir ceiswyr i gyflwyno gwybodaeth o safon oherwydd y bydd hyn yn hwyluso'r broses benderfynu. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ofyn am eglurhad neu ragor o wybodaeth yn ystod y broses benderfynu.

Gyda cheisiadau cynllunio mawr iawn / cymhleth bydd y drefn ychydig yn wahanol.

Gweld y [Cytundeb Perfformiad Cynllunio](#)